# Creu continwwm ieithyddol mewn ysgolion: ystyriaethau a heriau

**Nod y sesiwn hon yw trafod gwahanol agweddau ar y cysyniad o greu continwwm ieithyddol yn ysgolion Cymru a fyddai'n disodli'r drefn bresennol o lwybrau 'iaith gyntaf' ac 'ail iaith'.**

Pryd? - dydd Mercher 3ydd Awst, 1.00-2.00 ym mhabell Prifysgol Caerdydd

Trefn: Croeso gan Yr Athro Sioned Davies (5 munud); Dr Jonathan Morris o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yn cyflwyno'r cysyniad mewn sgwrs (15 munud). Yna agor y drafodaeth i'r Panel (20 munud) + cwestiynau/sylwadau o'r llawr i gloi (10 munud).

Y Panel: Cadeirydd, Yr Athro Sioned Davies (Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd); Dr Jonathan Morris (Darlithydd, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd); Emyr George (Cyfarwyddwr Cyswllt Cymwysterau Cyffredinol, Cymwysterau Cymru); Hywel Jones (AEM, Estyn); Lona Evans (Pennaeth Adran y Gymraeg, Ysgol Uwchradd Caerdydd); Gareth Pierce (Prif Weithredwr CBAC).

Darperir tocynnau ar gyfer y dydd Mercher. Mae'r Yr Athro Sioned Davies wedi trefnu hyn.

Cyfryngau Cymdeithasol – Gofynnir ichi hysbysebu'r digwyddiad ar eich rhwydweithiau cymdeithasol lle y bo'n briodol. Dylid defnyddio'r hashnodau **#PCSteddfod2016** neu **#CUEisteddfod2016** a thagio @ysgolygymraeg (ar Twitter).

**Cwestiynau ar gyfer y panel**

1. Ai creu continwwm ieithyddol yw'r ffordd orau o godi safonau?
2. Yn eich barn chi, sut y dylid penderfynu'r gwahanol bwyntiau ar y continwwm (e.e. ar sail cefndir ieithyddol)?
3. A oes perygl y byddai'r continwwm yn tanseilio darpariaeth Cymraeg iaith gyntaf? A ydych yn rhagweld y byddai Cymraeg Llenyddiaeth yn bodoli tu allan i'r continwwm?
4. Sut y byddech yn asesu disgyblion ar gontinwwm ieithyddol?
5. A yw dysgu ar gontinwwm yn ymarferol bosibl mewn ysgolion (o ystyried y gallu amrywiol ymhlith disgyblion)?
6. Wrth gwrs, byddai creu continwwm yn uno Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith fel pynciau er y byddai gwahaniaethau rhwng gwahanol haenau. Pa mor bwysig fyddai rhoi statws 'pwnc craidd' i'r Gymraeg?
    a. Sut fyddai hyn yn gweithio o ystyried y sefyllfa ieithyddol amrywiol o fewn ysgolion?
    b. A fyddai newid statws y pwnc (mewn ysgolion Saesneg) yn cael effaith ar godi safonau?
7. Fe soniwyd am ystyriaethau eraill megis 'cymhelliant' yn y cyflwyniad. Sut y gallai'r continwwm gymryd y ffactorau hyn, neu gyd-destun cymdeithasol myfyrwyr i ystyriaeth?
8. Ac i gloi, beth yw'r camau nesaf felly?